

Cyngor Cymuned Llanelian (289)

Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 4, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, John Griffiths, Elfyn Hughes, Thomas Jones, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Hefina Williams, Ian Evans, David Gerrard, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

Ymddiheuriadau: Helen Hughes, Cyng Richard Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc), Cyng Bob Parry (Deilydd Portffolio Twristiaeth), Dewi Williams (Cyngor Sir Ynys Mon)

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd Ian Evans i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor, a fe ddiolchwyd i Cyng Bob Parry a Dewi Williams am ymuno a'r cyfarfod ar ran y Cyngor Sir.

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans – Cais Cynllunio y Bedol ac Arolwg Angen Tai

3 Toiledau Cyhoeddus

Cadeirwyd yr eitem yma gan Hefina Williams. Croesawyd y gwyr gwadd ac fe nodwyd bod dyfodol toiledau cyhoeddus Porth Eilian wedi ei drafod yn y gorffennol.

Cafwyd grynodedb gan Dewi Williams o'i gyfrifoldebau o fewn y Cyngor Sir. Nodwyd nad oedd toiledau cyhoeddus yn wasanaeth statudol. Nodwyd hefyd bod peth gwariant wedi ei wneud ar doiledau ar draws yr ynys er mwyn codi safon yr adeiladau. Cydnabyddwyd nad yw'r gost o gynnal toiledau cyhoeddus yn swm enfawr i'r Cyngor Sir ond nad oedd y gwasanaeth yn statudol; roedd y swyddogion yn gweithredu ar benderfyniadau y Pwyllgor Gwaith (cyn yr etholiad – nid yw'r Cyngor Newydd wedi trafod y mater). Aeth Dewi Williams ymlaen i gadarnhau bod y penderfyniad o gau y toiledau wedi ei ddileu am ddwy flynedd gan fod cytundeb glanhau yn parhau ond gyda'r cytundeb hwnw yn dod i ben ddiwedd mis Medi, mae cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned gymryd cyfrifoldeb am yr adnoddau. Nodwyd mai £4800 y flwyddyn yw costau cyfredol toiledau Llanelian (ar agor yn dymhorol) gyda £4000 o'r costau yn gostau glanhau. Mae'r Cyngor Sir yn cynnig les o 125 blwyddyn a thalu costau trethi ar gyfer toiledau cyhoeddus ond gan mai dim ond yn dymhorol mae'r toiledau ar agor, nid oes costau treth ar gyfer adnoddau Llanelian.

Fe gadarnhaodd Dewi Williams bod adeilad Llanelian mewn cyflwr da ac nad oedd problemau fandaliaeth. Fe ofynnwyd beth fyddai'n digwydd petai'r gymuned ddim yn cymryd cyfrifoldeb am yr adnoddau, cadarnhaodd Cyng Bob Parry byddai'r adnoddau yn cau ddiwedd y tymor a ddim yn ail agor yn y gwanwyn. Cydnabyddwyd bod y toiledau yn bwysig i'r gymuned yn enwedig rheini oedd yn defnyddio'r traeth neu'n cerdded llwybr yr arfordir.

Roedd gan yr aelodau nifer o bwyntiau i'w crybwyll gyda'r gwyr gwadd:

Nodwyd bod y llythyr diweddaraf gan y Cyngor Sir wedi dod yn annisgwyl. Yr argraff a gafwyd pan drafodwyd y mater blwyddyn yn ol oedd bod y Cyngor Sir wedi ail-ystyried cau'r toiledau. Cafwyd wybod gan Dewi Williams mai oherwydd y cytundeb glanhau cafwyd estyniad o'r fath.

Roedd pryderon am agwedd y Cyngor Sir tuag at wasanaethau anstatudol megis y toiledau. Cyfeiriodd Dafydd Griffiths at ddogfen Llywodraeth Cymru (2013) yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau anstatudol megis toiledau. Nododd Dewi Williams bod y Llywodraeth hyd at 2013 wedi bod yn darparu grantiau i fusnesau gynnig eu adnoddau at

ddefnydd y cyhoedd. O fewn wythnos o gyhoeddi'r datganiad am bwysigrwydd gwasanaethau anstatudol, rhoddwyd stop ar y grantiau oedd ar gael i hybu hynnu!

Nodwyd siom yr aelodau nad oedd polisi'r Cyngor Sir yn ymwneud a thoiledau cyhoeddus wedi ymddangos ar eu gwefan hyd yma. Pwysleiswyd pwysigrwydd cael gwybod beth oedd strategaeth y Cyngor Sir a'r hyn oeddent yn bwriadu ei wneud. Cytuno bod cyfrifoldeb moesol i wneud hynnu. Nodwyd siom nad oedd y Cyngor Sir i weld wedi ystyried pwysigrwydd cyfleusterau cyhoeddus i bobl hyn, pobl anabl a rheini a phlant ifanc, nodwyd hefyd pa mor bwysig oedd cyfleusterau o'r fath i'r diwydiant twristiaeth.

Fe ofynwyd pwy oedd defnyddwyr toiledau Llanilian a chytunwyd mai defnyddwyr y traeth a rheini oedd yn cerdded y llwybr arfordirol fyddai yn gwneud y mwyaf o ddefnydd ohonynt. Nodwyd mai yn Amlwch neu Moelfre oedd y toiledau cyhoeddus nesaf, ac nad oedd siopau na gwestai yn gyfagos i rannu eu cyfleusterau.

£20k y flwyddyn yw cyllideb Cyngor Cymuned Llaneilian (briseb o £11k), byddai ychwanegu £4.8k yn swm eithaf sylweddol. Byddai angen cyfiawnhau'r fath wariant i drethdalwyr yr ardal. Nododd Dewi Williams nad oedd y Cyngor Sir yn bwriadu cau'r toiledau hynnu ger traethau banner las, nac ychwaith ambell doiledau fyddai llawer rhy ddrud i gymuned megis Traeth Coch! Nid oedd yr aelodau yn teimlo fod hyn yn deg ar drethdalwyr Llaneilian.

Nododd Cyng Bob Parry bod y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y gyllideb yn ol ym mis Mawrth ac er bod etholiad wedi bod, ni fyddai newid yn y gyllideb hwnw ac felly ni fydd yr aelodau newydd yn cael cyfle i drafod dyfodol y toiledau cyhoeddus. Nododd Cyng Bob Parry hefyd y byddai posib i'r Cyngor Cymuned lleihau costau yn sylweddol wrth gyflogi person lleol i wneud y gwaith glanhau – mae'r Cyngor Sir wedi bod yn cynnig un cytundeb am holl doiledau'r ynys (tebyg i gytundebau mawr eraill megis cynnal lonydd ayyb). Roedd yr aelodau yn ddig, ac yn teimlo bod hyn yn wastraff arian llwyr.

Cytuno bod angen trafodaeth mwy creadigol er mwyn edrych ar wahanol opsiynau cyn y gwanwyn. Trafodwyd y posibilrwydd o osod peiriannau 20c er mwyn codi peth arian tuag at gostau cynnal. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o godi ar gerbydau am barcio yn y maes parcio, a defnyddio'r arian hwnw tuag at gynnal y toiledau. Byddai'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gasglu'r arian, a'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal y peiriant.

Cafwyd gadarnhad gan Dewi Williams na fyddai'r Cyngor Sir yn codi treth ar unrhyw gymuned a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus.

Camau nesaf:

- 1) Gofynnwyd i'r Cyngor Sir beidio a gwneud dim nes bydd y toiledau'n cau ddiwedd mis Medi. Pwy fydd yn eu hagor yn y gwanwyn i'w gadarnhau.
- 2) Edrych ar y posibilrwydd o osod peiriant talu ac arddangos yn y maes parcio (CSYM)
- 3) Gwirio sut mae cymunedau eraill yn cynnal gwasanaethau – costau ayyb
- 4) Trafod ymhellach unwaith bydd y wybodaeth uchod i law.

Diolchwyd i Dewi Williams a Cyng Bob Parry am ddod i'r cyfarfod a gwrando ar bryderon yr aelodau.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Ethol Is-gadeirydd

Cytuno byddai penodi is-gadeirydd yng nghyfarfod Mis Medi.

5.2 Arolwg Tai

Deallwyd bod Grwp Cynefin wedi cydnabod ebost yn dilyn y cyfarfod diwethaf yn cadarnhau bod y Cyngor am i arolwg anghenion tai gael ei gynnal yn yr ardal. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto gan fod yr aelodau yn awyddus i symud ymlaen ac am gael amserlen ar gyfer y gwaith.

5.3 Lon yr Ysgol

Nid oes diweddariad gan CSYM o'r sefyllfa. Nodwyd bod blwch wedi ei osod ar bolyn tu allan i'r ysgol i gyfrif y nifer o gerbydau oedd yn defnyddio'r lon. Roedd yr aelodau yn parhau i fod yn bryderus iawn am gyflymder cerbydau heibio'r ysgol; nodwyd bod yr arwyddion 30mya yn rhy agos i giataiau'r ysgol.

Cyng Aled Jones i drafod ymhellach gyda Dewi Williams o fewn yr wythnos. Nododd Glenys Jones bod yr ysgol hefyd yn dal i ddisgwyl ymateb gan CSYM. Roedd yr aelodau yn erfyn ar CSYM i gymryd y camau priodol cyn i blentyn gael niwed neu gwaeth.

Roedd pryderon am gyflymder cerbydau drwy'r pentref yn gyffredinol, yn enwedig bysiau Arriva. Cyng Aled Jones i dynnu sylw'r swyddogion priodol yn Llangedfni.

5.4 Diogelu Enwau Hanesyddol

Cafwyd llythyr gan William Zajac (Swyddog Deddfwriaeth a Pholisi Llywodraeth Cymru) mewn ymateb i'r llythyr anfonwyd at Carwyn Jones. Roedd cynnwys y llythyr yn codi dau gwestiwn sef

- Rol a phwerau CSYM i ddiogelu enwau, a
- Rol llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Brenhinol i gofnodi a diogelu enwau.

Nododd Glenys Jones bod gwraig gwadd o Gymdeithas Enwau Lleol wedi ymweld a grwp Hwyllog Mon yn Amlwch yn ddiweddar ac efallai byddent yn gwybod mwy am gyfrifoldebau gwahanol gyrrff i ddiogelu a chofrestru hanes ardal.

Cytuno ysgrifennu at y Comisiynydd Brenhinol i godi ymwybyddiaeth o bryderon y Cyngor a gofyn sut mae mynd o gwmpas cofrestru a diogelu enwau yn y gymuned.

5.5 Rhos Newydd

Cafwyd gadarnhad bod yr apel wedi ei wrthod a bod peiriannau mawr wedi eu clirio o'r safle erbyn hyn.

5.6 Golau'r Neuadd

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn. Cadarnhawyd mai pwyllgor y Neuadd fydd yn talu am y gwaith ychwanegol.

5.7 Swyddfa Bost

Nid oedd diweddariad ar y sefyllfa. Mae pryderon yn parhau bod y gwasanaeth yn dirywio. Cyng Aled Jones i gysylltu a chynryhiolwyr y Swyddfa Bost.

5.8 Meinciau

Nid yw'r mainc yng Nghae Chwarae Tyddyn Waen wedi ei drin hyd yma. Nodwyd bod Partneriaeth Llwyfo wedi talu am y fainc plastig newydd a byddai wedi ei osod cyn gynted a phosib ym Maes Llwyfo.

5.9 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025

Mae car arall ar werth ar y glaswellt erbyn hyn. Nodwyd bod y mater wedi ei drafod ers rhai misoedd bellach a dim yn cael ei wneud gan CSYM. Gofynnwyd i Cyng Aled Jones drafod ymhellach gyda Huw Percy. Nodwyd hefyd bod y garafan a'r ceir ym Mhengorffwysfa wedi cael eu crybwyll a'u trafod heb weithrediad gan CSYM hefyd. Erbyn hyn mae ceir ar werth

ar y gyffordd ger y gyffordd a Lon Dywyll yn ogystal ag wrth y Bedol. Cyng Aled Jones i godi ymwybyddiaeth y swyddogion perthnasol. Gofynnwyd i Cyng Aled Jones atgoffa'r swyddogion bod ymyl y lon ger Coch Moel angen ei wneud yn ddiogel cyn gynted a phosib.

5.10 Giat y Fynwent

Nid oes cofnod o brynnu'r giat gan yr Eglwys. Mae'r gwaith ymchwil yn parhau ac mae disgwyl mwy o wybodaeth dros yr wythnosau nesaf.

5.11 Comisiwn Beddau Rhyfel

Nid oes ymateb gan Step-Change ynglyn a thrin a thwtio'r bedd hyd yma. Cyng Aled Jones i basio manylion cyswllt gwahanol i'r clercc gysylltu eto.

5.12 Gardd Top Rallt

Mae Clwb Garddio'r Ysgol wedi bod yn brysur yn plannu bldau a phlanhygion. Cymeradwywyd cyllideb o £50 tuag at adnoddau a phlanhygion i'r ardal. Cytuno hefyd ar hyd at £100 tuag at waith strimio, twtio a lladd chwyn i'r Maes Parcio. David Gerrard i brynnu adnoddau a chwblhau'r gwaith.

5.13 Pwyllgor Safonau

Nid oedd unrhywun am roi eu henwau ymlaen ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

6 Caeau Chwarae

Mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda Gareth o gwmni Playquest. Wedi cyfarfod ar y safle, mae wedi cytuno bod angen gwaith i ddiogelu ardal y sleid. Deallwyd byddai'r gwaith yma yn ddi-gost i'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clercc gadarnhau hyn yn ysgrifenedig a threfnu bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Gofynnwyd hefyd i'r clercc archebu capiau plastic i'w gosod ar yr offer chwarae ble mae rhai ar goll fel nodwyd yn yr adroddiad arolwg.

7 Llithrfa

Mae ebost wedi ei anfon allan at bawb sydd wedi cofrestru am oriad, ac mae Jeff Price yn ymwybodol ohono hefyd. Pwysleiswyd bod angen i ddefnyddwyr y llithrfa edrych ar ol eu gilydd er mwyn diogelu'r system.

8 Cynllunio

8.1 Ceisiadau – roedd pedwar cais i'w ystyried:

- Twrcelyn Garage 24C63G - gwrthod ar sail pryderon am leoliad y datblygiad a diogelwch priffyrdd, a'r angen am y datblygiad
- Glaslyn 24C178D - dim sylw
- Kingston a Dublin 24C254D - pryderon yn parhau am y system garffosiaeth yn y pentref - ydi'r system gyfredol yn ddigonol? Pryderon hefyd am ddigon o lefydd parcio (byddai parcio ar y ffordd fawr yn creu problemau). Cydnabyddwyd bod ceisiadau ar gyfer y safle wedi eu trafod mwy nac unwaith yn y gorffennol - oes posib, os caiff y cais yma ganiatad, oes posib cynnwys amod bod angen l unrhyw waith gychwyn o fewn 3-6 mis oherwydd bod yr adeiladau yn beryglys a bod pobl wedi torri l fewn a creu difrod eto yn yr wythnosau diwethaf.
- Bedol 24C147C/SCR - teimlai'r aelodau yn gryf bod y cais yma wedi ei gyflwyno yn gynamserol ac fe'i wrthwynebwyd ar sail diffyg gwybodaeth nes bydd mwy o wybodaeth ar gael i'w ystyried. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn a fyddai'r system garffosiaeth yn ddigonol am y fath brosiect (mae problemau enbyd yn y pentref yn barod). Pryderon hefyd am lefydd parcio. Mae Grwp Cynefin wedi cwrdd a'r Cyngor Cymuned ac ar fin cwblhau arolwg anghenion tai yn y pentref. Mae'r

aelodau am weld canlyniadau a chasgliadau'r arolwg cyn trafod y cais yma ymhellach.

- 8.2** Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:
Dim

9 **Materion Ariannol**

9.1 **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£200.00 RW Jones (meinciau)
£87.00 M Owen (arolygon caeau chwarae)
£180.00 IG Jones (gwasanaeth cyflogau)
£272.23 Cyflog Clerc
£224.72 Costau Clerc (Ebrill-Mehefin)
£10.00 Ysgol GYnradd (Gwobr Gwyn Roberts)

9.2 **Adroddiad Chwarterol**

Dosbarthwyd gopi o adroddiad yn dangos incwm a gwariany y Cyngor dros y tri mis diwethaf. Mae'r adroddiad yn un o ofynnion yr archwiliwyr. Esboniwyd ei gynnwys gan amlinellu'r prif wahaniaethau yn erbyn y gyllideb. Nodwyd mai gwariant ar fainc (i'w adalu) a hysbyswrdd oedd y taliadau dan y penawd 'arall'.

9.3 **Archwiliad**

Nodwyd bod y pecyn wedi ei anfon at BDO ond nad oedd adborth hyd yma. Esboniwyd y system archwilio a'r math o wybodaeth a dogfennau oedd angen eu cyflwyno. Mae'r archwiliad erbyn hyn yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithio drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na edrych ar y cyfrifon yn unig.

9.4 **Ceisiadau am Arian**

Ni chyflwynwyd cais i'w ystyried.

9.5 **Cofrestr Asedau**

Cafwyd peth arweiniad yng nghyfarfod diwethaf Un Llais Cymru, ond disgwyli'r canllawiau pellach. Bydd angen edrych ar y gofrestr asedau mewn peth manylder, ac edych hefyd ar werth yswiriant a lefelau risg ynghlwm.

10 **Cronfa Ty Moel Isaf**

Dim diweddariad.

11 **Wylfa Newydd (PAC3)**

Mae'r Cyngor ynghyd a Phartneriaeth Cyngorau Gogledd Mon wedi ymateb i ymgynghoriad PAC3 Wylfa Newydd. Darlennwyd y llythyr oedd wedi ei anfon ar ran y Cyngor yn nodi'r pwyntiau a drafodwyd gan yr aelodau er gwybodaeth.

12 **Polisiau'r Cyngor**

Cyflwynwyd y polisiau canlynol i'r Cyngor Llawn ac fe'u mabwysiadwyd. Diolchwyd i'r Is-bwyllgor am eu gwaith i baratoi'r dogfennau:

- Iechyd a Diogelwch (Health and Safety)
- Cyfleon Cyfartal (Equal Opportunities)
- Y Drefn Gwyno (Grievance Procedure)

13 **Iechyd a Diogelwch**

Yn unol a'r polisi Iechyd a Diogelwch, bydd yr eitem yma yn ymdadngos ar pob agenda o hyn allan ac yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am unrhyw bryderon.

14 Gohebiaeth

- 14.1 Daw cais gan CSYM i'r Cyngor Cymuned benodi Pencampwr y Gymraeg fydd yn gyfrifol am gefnogi'r Cyngor i hybu'r iaith a'r defnydd ohono yn y gymuned. Penodwyd Hefina Williams.
- 14.2 Ymgynghoriad Llyfrgell – Mae sesiynnau gwybodaeth i'w gynnal dros y mis nesaf. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn Medi 22, felly bydd cyfle trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

15 Unrhyw Fater Arall

- 15.1 Parcio ym Mhengorffwysfa – mae'r mater yn parhau heb ei ddatrys – Cyng Aled Jones a Cyng Richard Griffiths i drafod ymhellach gyda Thomas Jones a'r swyddogion perthnasol.
- 15.2 Gor-dyfiant – nodwyd bod y llwyni yn y gilfan ger Groeswen wedi gordyfu ac nad oes posibilrwyd gweld yr arwyddion dim ysbwriel. Cyng Aled Jones i wneud ymholiadau.
- 15.3 Lon Tyddyn Waen – nodwyd bod nifer o gwynion gan drigolion yr ardal am geir gofalwyr yn gyrru'n gyflym i fynu ac i lawr y lon. Rhaid cofio bod pobl yn cerdded y lon a hefyd bod maes chwarae yno. Mae Hefina Williams eisioes wedi cysylltu a'r cwmni i nodi pryderon y trigolion.
- 15.4 Hyfforddiant – nodwyd bod CSYM am drefnu hyfforddiant cod ymddygiad – nodwyd byddai'r holl aelodau yn mynychu petai'r hyfforddiant i'w gael yn y gymuned.

16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Medi 12, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.40.

Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd